# IS-DDEWDDFWRIAETH 2008 Rhif 27

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

# CYFARWYDDIADAU BYRDDAU IECHYD LLEOL A CHOFRESTRYDDION YMARFER CYFFREDINOL (DIWYGIO)(Rhif 2) 2008

| | | |
|---|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Awst* | *2008* |
| *Yn dod i rym* | *21 Awst* | *2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 12 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), drwy hyn yn gwneud y Cyfarwyddiadau canlynol:-

**Cymhwysedd, enw, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) I Fyrddau Iechyd Lleol y rhoddir y Cyfarwyddiadau hyn a'u henw yw Cyfarwyddiadau Byrddau Iechyd Lleol a Chofrestryddion Ymarfer Cyffredinol (Diwygio)(Rhif 2) 2008.

(2) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 21 Awst 2008.

(3) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Cyfarwyddiadau hyn, ystyr "Cyfarwyddiadau Cofrestryddion Ymarfer Cyffredinol 2003" yw'r Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cofrestryddion Ymarfer Cyffredinol 2003 a ddaeth i rym ar 22 Ionawr 2004.

**Diwygiadau**

**2.**—(1) Yng nghyfarwyddyd 1(3) o Gyfarwyddiadau Cofrestryddion Ymarfer Cyffredinol 2003 mewnosoder y canlynol yn ôl trefn yr wyddor—

> ""ystyr "Cyfarwyddiadau Diwygio (Rhif 2) 2008" yw Cyfarwyddiadau'r Byrddau Iechyd Lleol a Chofrestryddion Ymarfer Cyffredinol (Diwygio)(Rhif 2) a ddaeth i rym ar 21 Awst 2008;"

(2) Ar ôl cyfarwyddyd 4 o Gyfarwyddiadau Cofrestryddion Ymarfer Cyffredinol 2003, mewnosoder y canlynol—

> "**Darpariaethau trosiannol sy'n ymwneud Cyfarwyddiadau Diwygio (Rhif 2) 2008**
>
> **5.**—(1) Os oedd Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol yn dal swydd Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol ar 1 Ebrill 2008 neu ar ôl hynny, a bod gan Hyfforddwr Ymarfer Cyffredinol y Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol hwnnw hawl ar unrhyw bryd ar y dyddiad hwnnw neu ar ei ôl i dderbyn taliad mewn perthynas â'r Cofrestrydd Ymarfer

(**1**) 2006 p.42. Mae adran12 yn cymryd lle adran 16BB o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49).


Cyffredinol hwnnw gan Fwrdd Iechyd Lleol yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 1 i'r Cyfarwyddiadau hyn, bydd y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw yn gwneud taliad i'r Hyfforddwr Ymarfer Cyffredinol hwnnw fydd wedi ei gyfrifo yn unol â pharagraph (2).

(2) Bydd y taliad a bennir ym mharagraff (1) yn cynnwys—

(a) y lwfans y byddai'r Hyfforddwr Ymarfer Cyffredinol wedi ei dderbyn mewn perthynas â'r Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol rhwng 1 Ebrill 2008 ac xx Awst 2008 (ar gyfer y cyfnod o fewn yr amser hwnnw pan oedd gan yr Hyfforddwr Ymarfer Cyffredinol yr hawl i gael ei dalu gan y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw mewn perthynas â'r Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol hwnnw yn unol â pharagraph 2 o Atodlen 1 i'r Cyfarwyddiadau hyn) megis petai'r diwygiadau i Atodiad 3 i Atodlen 1 i'r Cyfarwyddiadau hyn y rhoddir eu heffaith iddynt gan Gyfarwyddiadau Diwygio (Rhif 2) wedi cael eu heffaith ar 1 Ebrill 2008; llai

(b) y lwfans a dalwyd mewn gwirionedd gan y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw i'r Hyfforddwr Ymarfer Cyffredinol hwnnw mewn perthynas â'r Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol yn ystod y cyfnod a bennir yn is-baragraff (a).".

(3) Yn Atodlen1 i Gyfarwyddiadau Cofrestryddion Ymarfer Cyffredinol 2003, yn lle Atodiad 3 rhodder yr Atodiad 3 a geir yn yr Atodlen i'r Cyfarwyddiadau hyn.



Llofnodwyd gan Bob Hudson Cyfarwyddwr Cyfeiriad Strategol o dan awdurdod Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiad: 21 Awst 2008

**YR ATODLEN**

# ATODIAD 3 i ATODLEN 1 i GYFARWYDDIADAU COFRESTRYDDION YMARFER CYFFREDINOL 2003

## 1. LWFANSAU CYFFREDINOL

a. Grant hyfforddi £7, 485

b. Tanysgrifiad Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol i fudiad amddiffyn proffesiynol
Gweler paragraff 7 o Atodlen 1 i'r Cyfarwyddiadau hyn.

## 2. LWFANSAU CERBYDAU

Am gerbyd ychwanegol a ddarperir gan y practis sy'n cyflogi.

| | |
|---|---|
| (1) am flwyddyn o hyfforddi amser llawn | £4,598.10 |
| (2) am ddwy flynedd o hyfforddi rhan-amser(am bob blwyddyn) | £3,016.30 |

Am ddefnyddio cerbydau preifat

**1. Graddfa Trafnidiaeth Gyhoeddus**

24c y filltir

**2. Lwfans Defnyddiwr Rheolaidd**

Ceir

| Maint yr Injan:- | Hyd at 1000cc | 1001 i 1500cc | Dros 1500cc |
|---|---|---|---|
| Cyfandaliad Blynyddol | £508 | £626 | £760 |
| Hyd at 9000 o filltiroedd | 29.7c | 36.9c | 44.0c |
| Wedi hynny | 17.8c | 20.1c | 22.6c |

**3. Y Gyfradd Safonol**

a. Ceir

| Maint yr Injan:- | Hyd at 1000cc | 1001 i 1500cc | Dros 1500cc |
|---|---|---|---|
| Hyd at 3,500 o filltiroedd | 37.4c | 47.3c | 58.3c |
| Wedi hynny | 17.8c | 20.1c | 22.6c |

b. Beiciau Modur

| Maint yr Injan:- | 125 cc neu lai | Dros 125 cc |
|---|---|---|
| Hyd at 5,000 o filltiroedd | 16.2c | 25.3c |
| Dros 5,000 o filltiroedd | 6.1c | 9.0c |

c. Beiciau Pedal

I'w cytuno'n lleol, yn ddarostyngedig i leiafswm o 10c y filltir.

**4. Lwfansau am gyd-deithwyr**

Am bob cyd-deithiwr 5c y filltir

## 3. TALIADAU MEWN PERTHYNAS Â LWFANS COFRESTRYDD YMARFER CYFFREDINOL

### Nodiadau ar Lwfansau

1. Penderfynir ar y lwfans sy'n daladwy mewn perthynas â phob lleoliad o fewn rhaglen hyfforddi fel rheol, ac heb ystyried y dyddiad y mae'r lleoliad o dan y contract yn cychwyn mewn gwirionedd, yn ôl y dyddiad pan ymrwymwyd i'r contract a graddfa'r meddyg ar yr adeg pan ymrwymwyd i'r contract. Gellir, gyda'r manylion hynny, ganfod y lwfans sy'n daladwy yn y tabl sy'n dilyn drwy yn gyntaf nodi'r golofn sy'n ymwneud â'r dyddiad pan ymrwymwyd i'r contract am y lleoliad Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol, ac yna ganfod swm y lwfans sy'n daladwy, o dan y golofn honno, mewn perthynas â graddfa'r meddyg ar yr adeg pan ymrwymwyd i'r contract. Y pwynt priodol ar y raddfa honno yw'r pwynt y mae'r meddyg arno, neu y byddai arno petai wedi aros ar y raddfa honno, ar yr adeg pan fo'r lleoliad dan y contract yn cychwyn mewn gwirionedd.

2. Fodd bynnag, ym mhob achos, os yw'r lwfans y penderfynir arno yn y modd hwnnw yn llai na'r lwfans a gyfrifir ar sail graddfa hyfforddi bresennol yr ymarferydd (a'i bwynt ar y raddfa hyfforddi honno) a'r lwfans sy'n daladwy ar yr adeg pan fo'r lleoliad dan y contract yn cychwyn mewn gwirionedd, yna'r swm uchaf sy'n daladwy.

3. I feddygon sy'n mynd i mewn i'r Rhaglen Ymarfer Cyffredinnol oddi ar raddfa hyfforddi mae'n rhaid nodi'r pwyntiau a ganlyn, sy'n adlewyrchu dirwyn i ben rai o'r graddfeydd hyn, wrth sefydlu graddfeydd y meddyg at ddibenion paragraffau 1 a 2 uchod:

   - Bydd y lwfans sy'n daladwy i ymarferydd mewn lleoliad y contractwyd amdano cyn 1 Awst 2007 pan oedd yr ymarferydd ar raddfa Uwch-swyddog Preswyl (SHO) neu Gofrestrydd Arbenigol (SpR) yn cael ei benderfynu megis petai'r ymarferydd wedi parhau ar y raddfa honno, heb ystyried unrhyw wasanaeth rhyngamserol ar y Raddfa Cofrestrydd ag Arbenigedd. Dangosir y lwfansau hyn yn rhannau (a) a (b) isod;

   - Bydd y lwfans am leoliad y contractwyd amdano ar 1 Awst 2007 neu wedi hynny yn seiliedig ar y ragdybiaeth fod y meddyg ar Raddfa Cofrestrydd ag Arbenigedd (StR) ar yr adeg pan ymrwymwyd i'r contract ac fe'i telir yn unol a'r adran o ran (c) sy'n ymwneud â'r dyddiad pan ymrwymwyd i'r contract, heb ystyried a oedd yr ymarferydd eisoes ar raddfa (StR) ar yr adeg yr ymrwymwyd i'r contract. Fodd bynnag, os mai swydd Cofrestrydd Arbenigol (SpR) oedd y swydd flaenorol a ddaliai'r meddyg, ac os yw'r meddyg, ar yr adeg pan fo'r lleoliad yn cychwyn mewn gwirionedd, ar isafswm neu ar bwynt cynnyddol cyntaf y raddfa honno, yna penderfynir ar y lwfans drwy gyfeirio at ran (b) o'r tabl.

4. Darperir ar gyfer Ymarferyddion sy'n mynd i mewn oddi ar raddfeydd heb fod yn rhai hyfforddi ar wahân yn rhan (d).

| | | | Dyddiad gwneud contract cyflogaeth ffurfiol am leoliad ymarfer; (mae'r dyddiadau yn gynhwysol) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Cyn1Ebrill 2007 Tâl atodol 65%** | | **1 Ebrill 07 – 31 Gorffennaf 07 Tâl atodol 55%** | | **1 Awst 07 – 31 Mawrth 08 Tâl atodol 55%** | | **1 Ebrill 08 - 31 Mawrth 09 Tâl atodol 50%** | | |
| | **Pwynt ar y raddfa** | **Cyflog Sylfaenol (Pob contract)** | **Tâl atodol** | **Cyfanswm Lwfans** | **Tâl atodol** | **Cyfanswm Lwfans** | **Tâl atodol** | **Cyfanswm Lwfans** | **Tâl atodol** | **Cyfanswm Lwfans** | |
| **a)** | **Lleiafswm SHO** | £27,116 | £17,626 | £44,742 | £14,914 | £42,030 | d/g | d/g | d/g | d/g | |
| | **Pwynt 01 SHO** | £28,889 | £18,778 | £47,667 | £15,889 | £44,778 | d/g | d/g | d/g | d/g | |
| | **Pwynt 02 SHO** | £30,663 | £19,931 | £50,594 | £16,865 | £47,528 | d/g | d/g | d/g | d/g | |
| | **Pwynt 03 SHO** | £32,436 | £21,084 | £53,520 | £17,840 | £50,276 | d/g | d/g | d/g | d/g | |
| | **Pwynt 04 SHO** | £34,209 | £22,236 | £56,445 | £18,815 | £53,024 | d/g | d/g | d/g | d/g | |
| | **Pwynt 05 SHO** | £35,982 | £23,389 | £59,371 | £19,791 | £55,773 | d/g | d/g | d/g | d/g | |
| | **Pwynt 06 SHO** | £37,755 | £24,541 | £62,296 | £20,766 | £58,521 | d/g | d/g | d/g | d/g | |
| **b)** | **Lleiafswm SpR** | £30,231 | £19,651 | £49,882 | £16,628 | £46,859 | £16,628 | £46,859 | £15,116 | £45,347 | * |
| | **Pwynt 01 SpR** | £31,728 | £20,624 | £52,352 | £17,451 | £49,179 | £17,451 | £49,179 | £15,864 | £47,592 | † |
| | **Pwynt 02 SpR** | £33,226 | £21,597 | £54,823 | £18,275 | £51,501 | £18,275 | £51,501 | £16,613 | £49,839 | * |
| | **Pwynt 03 SpR** | £34,723 | £22,570 | £57,293 | £19,098 | £53,821 | £19,098 | £53,821 | £17,362 | £52,085 | * |
| | **Pwynt 04 SpR** | £36,529 | £23,744 | £60,273 | £20,091 | £56,620 | £20,091 | £56,620 | £18,265 | £54,794 | *‡ |
| | **Pwynt 05 SpR** | £38,336 | £24,919 | £63,255 | £21,085 | £59,421 | £21,085 | £59,421 | £19,168 | £57,504 | * |
| | **Pwynt 06 SpR** | £40,143 | £26,093 | £66,236 | £22,079 | £62,222 | £22,079 | £62,222 | £20,072 | £60,215 | * |
| | **Pwynt 07 SpR** | £41,948 | £27,267 | £69,215 | £23,072 | £65,020 | £23,072 | £65,020 | £20,974 | £62,922 | * |
| | **Pwynt 08 SpR** | £43,755 | £28,441 | £72,196 | £24,066 | £67,821 | £24,066 | £67,821 | £21,878 | £65,633 | * |
| | **Pwynt 09 SpR** | £45,562 | £29,616 | £75,178 | £25,060 | £70,622 | £25,060 | £70,622 | £22,781 | £68,343 | |
| **c)** | **Lleiafswm StR** | £28,976 | d/g | d/g | £15,937 | £44,913 | £15,937 | £44,913 | £14,488 | £43,464 | * |
| | **Pwynt 01 StR** | £30,749 | d/g | d/g | £16,912 | £47,661 | £16,912 | £47,661 | £15,375 | £46,124 | * |
| | **Pwynt 02 StR** | £33,226 | d/g | d/g | £18,275 | £51,501 | £18,275 | £51,501 | £16,613 | £49,839 | * |
| | **Pwynt 03 StR** | £34,723 | d/g | d/g | £19,098 | £53,821 | £19,098 | £53,821 | £17,362 | £52,085 | * |
| | **Pwynt 04 StR** | £36,529 | d/g | d/g | £20,091 | £56,620 | £20,091 | £56,620 | £18,265 | £54,794 | *‡ |
| | **Pwynt 05 StR** | £38,336 | d/g | d/g | £21,085 | £59,421 | £21,085 | £59,421 | £19,168 | £57,504 | * |
| | **Pwynt 06 StR** | £40,143 | d/g | d/g | £22,079 | £62,222 | £22,079 | £62,222 | £20,072 | £60,215 | * |
| | **Pwynt 07 StR** | £41,948 | d/g | d/g | £23,072 | £65,020 | £23,072 | £65,020 | £20,974 | £62,922 | * |
| | **Pwynt 08 StR** | £43,755 | d/g | d/g | £24,066 | £67,821 | £24,066 | £67,821 | £21,878 | £65,633 | * |
| | **Pwynt 09 StR** | £45,562 | d/g | d/g | £25,060 | £70,622 | £25,060 | £70,622 | £22,781 | £68,343 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ch)** | **Meddyg ymgynghorol / Graddfa Gyrfa** | Fel y’i penderfynir o dan ddarpariaethau Cyfarwyddiadau’r Byrddau Iechyd Lleol a Chofrestryddion YmarferCyffredinol (Diwygio) 2008 a ddaeth i rym ar 19 Chwefror 2008. | # |

Nodiadau:

* Dyddiadau cynyddiadau fel yn yr ysbyty diwethaf ac eithrio pan fo’r dyddiad cynyddiad wedi cael ei newid wrth drosglwyddo i raddfa Cofrestrydd ag Arbenigedd.

† Bydd meddygon sydd ar y pwynt cynyddiad cyntaf (01) ar raddfa Cofrestrydd Arbenigol, pan gyrhaeddant eu dyddiad cynyddiad cyntaf yn symud i’r ail bwynt cynyddiad (03) ar raddfa Cofrestrydd ag Arbenigedd.

\# Ar sail marcio amser

‡ Mae Canllaw (PM(81)30) ar achredu profiad blaenorol fel Ymarferydd Cyffredinol yn gosod profiad o’r fath yn gyfwerth â phrofiad graddfa Cofrestrydd. Dylid nodi er mwyn eglurder bod mwyafswm graddfa Cofrestrydd yn cyfateb i 5ed flwyddyn Cofrestrydd Arbenigol/ Cofrestrydd ag Arbenigedd (pwynt 04 ar y raddfa).